

**Cariad Duw ar waith
gan y diweddar Mrs Alice Evans, Sanclêr**

ARWEINYDD:

Gweddiwn

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.

Amen

Emyn 206: Tyred, Arglwydd Iôr, i lawr (Caneuon Ffydd)

Arweinydd: Cariad yw Duw, ac mae'r Salmydd yn ymateb i'r cariad hwn pan mae'n dweud:

Cyflwynydd 1: Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf;

Cyflwynydd 2: Da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

Cyflwynydd 3: Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni; yn gymorth parod mewn cyfyngder.

1: Ti sy'n goleuo fy llusern, Arglwydd.

2: Graslon a thrugarog yw yr Arglwydd, araf i ddiogio, a llawn ffyddlondeb.

3: Y mae cariad a gwirionedd yn mynd o'th flaen.

1: Mor werthfawr yw dy gariad, O Dduw; llochesa dynion dan gysgod dy adenydd.

2: Yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd.

3: Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.

1: Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a'r cyfan sydd ynof ei enw sanctaidd.

2: Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac mae ei gariad hyd byth.

Arweinydd: Da yw canu mawl i'n Duw ni, oherwydd y mae'n drugarog, a gweddus yw mawl.

Emyn/Cân: Cariad yw Duw

Tôn: The Glory Song
(Alexander's New Revival Hymns)

“Cariad yw Duw”, dyma'r cysur a ddaw
beunydd i'm cadw rhag pryder a braw;
pan ddaw amheunon, daw'r cariad a'i wres
ataf i'm tynnu at f' Arglwydd yn nes.

“Cariad yw Duw”, dyma'r sicrwydd a rydd
ddewrder i'w ddilyn trwy mywyd mewn ffydd;
daw i'm hadfywio pan sudda fy mron,
cwyd fi a'm gosod ar ymchwydd y don.

“Cariad yw Duw”, dyma'r sylfaen ddi-ffael
cymorth fy Nghrëwr sydd wastad ar gael;
am ei ddaioni siaradaf yn hy,
ar ei addfwynder saernïaf fy nhŷ.

“Cariad yw Duw”, dyma'r fendith a roes
hyder i Iesu pan oedd ar y groes;
digon i 'Ngheidwad oedd cariad ei Dad,
digon i minnau yw 'i gysur di-wad.

Cytgan: Cariad fy Nuw, gwir gariad yw,
daw imi'n rhad, daw heb nacâd;
prawf o'i anwyldeb yw cyfoeth ei wledd;
ynddi arlwyir maddeuant a hedd.

Arweinydd: Darllenwn am gariad Duw yn yr Hen Destament, fel y clywyd yn yr
adnodau o'r Salmau, ond yn y Testament Newydd, oblegid ei gariad mawr tuag
at ddyn, mae'n anfon ei Fab ei hun, Iesu Grist, i'r byd.

Fel hyn y mae Iwan yn adrodd yn ei efengyl, -‘Carodd Duw y byd cymaint, nes
iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu, beidio â mynd i ddistryw, ond
cael Bywyd Tragwyddol.’

Dewisodd Iesu ddeuddeg o ddisgyblion i'w helpu i roi cariad Duw ar waith.’

Darlleniad: Luc 9: 1-6 Cenhadaeth y Deuddeg

Emyn195: lôr anfeidrol, yn dy gwmni (Caneuon Ffydd)

Cyflwynydd 1: Y Safon (Gan y diweddar Barchg Meurwyn Williams)

Un tro roedd dyn cyfoethog yn byw mewn tŷ mawr crand, yn ymyl ffatri. Roedd y tŷ yn fawr ac iddo dŵr, ac yn y tŵr rhoddwyd cloc mawr y gellid ei ddarllen o bell i ffwrdd.

Bob dydd am bump o'r gloch, fe ganai hwter y ffatri, ac ar ganiad y corn, fe âi'r gweithwyr yn ôl i'w cartrefi am y nos. Credai'r dyn cyfoethog fod hwter y ffatri mor ddibynnol, fel y gosodai fysedd y cloc yn ôl caniad yr hwter.

Rhyw ddydd, cyfarfu perchen y tŷ â rheolwr y ffatri, ac meddai wrtho, "Dyna ddibynnol yw hwter y ffatri. Mae gennyf y fath ffydd ynddi, fel y cywiraf gloc fy nhŷ yn ôl caniad yr hwter." "Dyna ryfedd," meddai rheolwr y ffatri, "byddaf yn canu hwter y ffatri yn ôl yr amser a welaf ar gloc tŵr dy dŷ."

Felly roedd y naill a'r llall yn gosod ac yn derbyn eu safonau oddi wrth ei gilydd, ac nid oedd yr un ohonynt yn gywir. Mae'n berygl i ni, yn ein bywyd Cristnogol a chymdeithasol wneud yr un peth, sef derbyn ein safonau oddi wrth ein gilydd, a bod yn anghywir, fel y ddau yn yr hanes a ddarllenwyd.

Peidiwn â dilyn esiempl cyd-ddynion bob amser felly, oblegid gallant ein harwain ar gyfeiliorn. Rhoddodd Duw Iesu i fod yn batrwm bywyd i ni. Boed inni, felly, ei efelychu Ef.

Cyflwynydd 2: Cofiwn am Iesu'n golchi traed y disgyblion; dyma act o gariad a gostyngedd. Meddai, ar ôl iddo orffen, "Os wyf fi, a minnau'n Arglwydd ac yn Athro, wedi golchi eich traed chwi, fe ddylech chwithau hefyd olchi traed eich gilydd. Yr wyf wedi rhoi esiempl i chwi; yr ydych i wneud yn union fel yr wyf fi wedi gwneud i chwi."

Nid oedd Paul yn un o'r deuddeg disgybl, ond gwyddai'n dda am y gostyngedd a ddysgodd Crist i'w ddilynwyr, ac meddai yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, "Gochelwch feddyliau mawreddog; yn hytrach rhodiwch gyda'r distadl. Peidiwch â chyfrif eich hunain yn ddoeth."

Cyflwynydd 3: Rhanna dy bethau gorau (gan R.H.Jones)

Rhoi wnaeth y weddw anghenus,
rhoi wna y da o hyd;
rhoi'r un fath â ffynnon,
rhoi, a chael yr un pryd:
y ffordd i gadw trysor yw
ei roi yn ôl ar allor Duw.

Rhanna dy bethau gorau
rhanna, a thi yn dlawd;
rhanna dy wên a'th gariad,
rhanna dy nef â'th frawd;
rhyw nefoedd wael yw eiddo'r un
fyn gadw'i nefoedd iddo'i hun.

Cyflwynydd 1: Cawl Wyau

“Beth gefaist i ginio gan Mari Tanfron?”
gofynnodd y fam i'w hogyn bach John;
“Cest di gawl, cest di dato, neu lymru neu la'th?
mae Mari'n gybyddlyd, ni fu neb o'i bath.”
“Ces bryd o gawl wyau,” medd John yn ddi-oed,
“ni ches y fath ginio'n fy mywyd erioed.”

“Cawl wyau! Cawl wyau! meddai'r fam yn syn;
“Ie, roedd Mari'n ei gwcan e'n debyg i hyn –
yn gosod sospanaid o ddŵr ar y tân,
ac ynddo i ferwi, dau wŷ melyn glân,
a Mari, rôl hynny, heb amau ei hawl,
yn bwyta'r wyau, ces innau'r cawl.”

Yn debyg i Mari mae llawer 'n y byd,
am gadw i'w hunain y braster i gyd;
maent am berchenogi holl gyfoeth y tir,
heb gofio bod eraill mewn angen yn wir:
mae'r bobol oludog yn cymryd yr hawl
i fwyta yr wyau, caiff eraill y cawl!

Arweinydd: Mae Paul, yn ei lythyr cyntaf at yr Eglwys yng Nghorinth yn ysgrifennu am “Gariad”. Dyma beth mae'n dweud

Darlleniad: 1 Corinthiaid. Pennod 12

Cân (i unigolyn neu barti): Cariad Crist Tôn: M46

Mae cariad Iesu'n llawn o swyn,
a'i hedd sy'n llanw 'mron,
can's clywais am ei allu cryf
i'm cynnal ar bob ton:
diolchaf am y rhai fu gynt
yn plannu hadau'r Gair,
a meithrin ynof ffydd i'm dwyn
i 'nabod Baban Mair.

Mae cariad Iesu'n llawn o gân
i godi f' ysbryd dwys;
pan fydd gofidiau'r byd yn drwm,
ei fraich sy'n dal y pwys:
yn f'ymyl mae, rhag gadael cur
i lethu 'nghalon wan;
ble bynnag wyf, beth bynnag wnaif,
ei gariad yw fy rhan.

Mae cariad Iesu'n llawn o ras
na all y byd ei ddwyn;
ei galon bur ni wrthyd neb
a ddaw i leisio cwyn:
lledaenu cariad Crist a wnaif
yn ôl ei alwad gref;
nid oes anrhydedd fwy'n y byd
nag uno 'ngwaith y nef.

Cardiau gyda llythrennau **C-A-R-I-A-D** i chwech o'r plant lleiaf:

CARIAD

1. **C** am caru Duw.
2. **A** am addoli Duw.
3. **R** am roi ein gorau i Dduw.
4. **I** am Iesu, Mab Duw.
5. **A** am adnabod Duw.
6. **D** am diolch i Dduw.

Pawb: Arglwydd da, dy gariad di sy'n rhoi cariad ynom ni.

EMYN BLANT 115: Cân i'r plant (Caneuon Ffydd)

Arweinydd: Cyd-weddiwn: O Dad, helpa ni i weddio arnat yn awr mewn ysbryd gostyngedig. Down gyda diolch yn ein calonnau am i ni gael byw mewn gwlad mor brydferth. Dim ond Ti, Arglwydd, all greu y fath harddwch. Sylweddolwn ein bod yn dibynnu arnat am bob peth, ond maddau i ni am beidio cydnabod hyn bob amser. Deffro ni i weld dy ogoniant di o'r newydd, a rhoi i Ti ein mawl.

Diolchwn i Ti am bob gwybodaeth a dyfais sy'n lleihau poen. Cadw ni rhag defnyddio'n gwybodaeth i greu arfau dinistriol, neu i wenwyno'r amgylchedd. Gwared ni rhag credu mai yn ein nerth ein hunain y dyfeisiwn bob peth newydd, heb ddod â thi i'r darlun, ac heb dy gydnabod di a'th fawrygu am bob daioni.

Diolchwn i Ti'n bennaf am Iesu Grist, am iddo ddweud wrthym am dy gariad di, ac am iddo ddangos dy gariad perffaith di, wrth fyw ac wrth farw. Maddau inni am ein difaterwch ynglŷn â'i waith. Dysg ni i gerdded y llwybrau a luniaist ar ein cyfer, y llwybrau sy'n ein dwyn i'r deyrnas a drefnaist i ni ei derbyn a'i mwynhau.

Cynnal ni pan y'm yn ofnus, nertha ni pan y'm yn wan, gan ddilyn ôl traed yr Un a roddaist yn esiampl i ni. Dysg i ni faddau i'r sawl a wna gam â ni, a'u goddef heb chwerwi a heb ddial.

Gweddiwn dros y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i drais a rhyfel, a helpa ni i fod yn dangnefeddwyr yn enw Iesu. Meddala ein calonnau, er mwyn i ni dosturio wrth y newynog, y tlawd a'r digartref, gan sylweddoli nad ydym yn deilwng o gael ein galw yn blant i Ti, heb inni rannu ein hadnoddau, ein doniau a'n hamser gyda'n brodyr a'n chwiorydd.

Cynydda ddylanwad Crist a'i efengyl yn ein calonnau ni, a boed i'th gariad di fod ar waith yn y byd trwom ni. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, Amen.

Emyn 341: Iesu hawddgar rho dy feddwl (Caneuon Ffydd) Tôn:M10.

Cyflwynydd 2: Duw roddodd Iesu yn anrheg i'r byd; dyna'i rodd fwyaf erioed, ond nid dyna'i unig rodd. Mae Duw'n rhoi o hyd ac o hyd, ac mae ei roddion yn amlwg ym myd natur, ymhob tymor o'r flwyddyn. Ar ôl y gaeaf llwm, daw'r blagur a'r glesni unwaith yn rhagor i'r coed, y perthi a'r caeau, i fod yn ymborth i ddyn ac anifail. Ef sy'n rhoi addfwynder, tangnefedd, llawenydd, ffydd a gobraith yn ein

calonnau hefyd. Nid oes pall ar ei roddion Ef, y rhoddion ysbrydol yn ogystal â'r rhai materol. Mae'r cyfan yn dangos ei gariad tuag atom.

Cyflwynydd 3: Ei ffordd E' gan Abiah Roderick,

Ni wnaeth Duw 'r un blodyn bach,
heb fod ei betalau iach
yn rhoi gwên fach ymhob lliw
dyna fel y gweithia Duw.

Ni bu gaeaf heb bod haf,
gwyntoedd oer heb heulwen braf;
mae i'r ddau eu gwaith a'i lle
yn ei drefen rhyfedd E'

Nid oes deryn yn y coed
wedi canu cân erioed,
heb fod yn ei ganig lon
ddymuniadau gorau 'i fron.

Hardd yw'r daffodil a'i liw
draw ar lawnt y plas yn byw;
'r un mor hardd yw'r lili wen
ddaw drwy'r llaid gan godi'i phen.

Nid oes seren yn y nos
nad yw am oleuo'r ffos;
myn goleuni cariad Duw
drechu'r nos, er dued yw.

Ni bu nos o d'wylwch mawr
na fu hefyd doriad gwawr;
y mae cariad Duw'n ddi-ball,
nid oes un peth heb y llall.

Os bu rhwystrau ar y daith,
fe fu llwyddiant lawer gwaith;
stori bywyd, rhyfedd yw,
dyna fel y gweithia Duw.

Emyn/Cân : Diolch am fyd natur

Tôn: Plwyf Llangeler

Gorfoledd i'n calon wrth fynd ar ein taith,
yw'r sicrwydd, Dad nefol, dy fod wrth dy waith;
Tydi'n dy ddoethineb sy'n llunio a gwau
patrymau byd natur, a Thi sy'n bywhau;
O Roddwr pob harddwch, diolchwn o hyd
am feddwl amdanom wrth lunio dy fyd.

Hyfrydwch i'n llygaid yw hydref y dail;
dangosant ysblander dy arlwy di-ail;
'r ôl gaeaf o orffwys, daw ernes o fro
toreithiog ei blagur a blodau'n eu tro;
am haf o brydferthwch, datganwn dy glod,
edmygwn y cyfoeth sy'n arllwys o'th god.

Tangnefedd i'n henaid yw murmur y nant
wrth lifo dros raeon yn esmwyth drwy'r pant;
mae ymchwydd y tonnau'n amlygu dy chwaeth
wrth ddiwel ei hewyn ar dywod y traeth;
tynerwch y gwllithyn a sisial y glaw
sy'n dangos addfwynder digymar dy law.

Chwanegiad i'n pleser yw'r grug ar y bryn,
yr eithin ar rostir a'r alarch ar lyn;
daw adar i'r berllan â'i melodi cain,
ac adlais o'th oslef a glywn ymhob sain;
gogoniant y cread a ddaw trwot Ti;
diolchwn am iti ei rannu â ni.

Cyflwynydd 2: Y Tangnefeddwyr

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr;
fel lefain mewn blawd,
creant ewyllys cariadlon mewn cymdeithas;
llefarant yn eirwir,
ymagweddant yn gyfrifol;
gweddiant dros y rhai sy'n eu herlid
a sychedant am gyfiawnder.

Arfogaist y tangnefeddwyr â thegwch a brawdgarwch,
cadwant aelodau'r teulu mewn cytgord,
trwy ymarfer ffyddlondeb, doethineb ac amynedd;
mae eu bywyd a'u crefydd yn un,
a dydd dial wedi ei luchio i ddifancoll.

Rhodaist iddynt glustiau, Arglwydd, i wrando ar gri'r caethion,
a llais i godi mewn protest yn erbyn anghyfiawnder,
llygaid i weld dy drefn fendithiol,
traed i sefyll yn gadarn dros chwarae teg,
a chydwybod i anesmwytho pan gwyd yr angen.

Rhodaist Dywysog Tangnefedd yn Frawd;
i'w efelychu a gweithio er ei fwyn,
i greu undod rhwng dyn a'i gyd-ddyn,
rhwng dyn a'r cread,
a rhwng dyn a Thi, O Dduw.

Gwyn eu byd y Tangnefeddwyr.

Emyn 805: Rho imi nerth i wneud fy rhan (Caneuon Ffydd)

Arweinydd: Cyd-weddiwn: Helpa ni, O Dduw, i estyn trugaredd, addfwynder a brawdgarwch i'n cyd-ddynion, er mwyn ehangu dy dangnefedd di. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, yr Un a'n cymhellodd ni i wella'r byd o'n cwmpas. Amen.